Cymwysterau Cymru

Datganiad ac Amcanion mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyflwyniad

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Cymwysterau Cymru a sefydlwyd i reoleiddio cymwysterau, heblaw am raddau, a astudir gan ddysgwyr yng Nghymru.

Er nad ydym yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) ar hyn o bryd, credwn fod ein rôl yn ategu ei diben, a bod ei gofynion yn gydnaws â'n dull o weithio. Felly, rydym wedi gwirfoddoli i fabwysiadu darpariaethau'r Ddeddf er mwyn ategu'r modd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau.

O dan y Ddeddf, rhaid i gyrff y sector cyhoeddus wneud gwaith datblygu cynaliadwy sy'n cael ei ddiffinio fel a ganlyn:

"y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant."

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn egluro bod hyn yn golygu defnyddio datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol h.y. yn yr hyn rydym yn ei wneud; sut rydym yn ei wneud; a sut rydym yn cyfathrebu'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud.

Mae'n naturiol i ni weithio yn y ffordd hon, gan fod safbwynt hirdymor yn angenrheidiol yn y byd addysg. Rydym hefyd yn cydweithio ag eraill, gan ein bod yn un rhan o'r system addysg gyfan yng Nghymru.

O dan y Ddeddf, mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gyfrannu cymaint â phosibl at y saith nod llesiant, a phennu a chyhoeddi amcanion ategol, gan lunio adroddiadau blynyddol ar gynnydd.

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru hefyd yn egluro bod y ddyletswydd hon yn golygu mabwysiadu'r ffyrdd canlynol o weithio:

- Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Cymryd ymagwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu blaenoriaethau;
- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir;
- Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd eto.

Mae ein gwerthoedd yn sail i'n gwaith:

- **Cydweithredol** o ran ein ffordd o weithio
- **Ystyriol** o ran ein dulliau gweithredu
- **Cadarnhaol** o ran ein hagwedd
- **Dysgu** o brofiad a chan eraill

Mae'r gwerthoedd hyn yn gosod cydweithio, a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ystyriol, wrth wraidd ein hymddygiad.

Mae cymwysterau yn bwysig i ni am ein bod yn deall y gwahaniaeth y mae addysg dda yn ei wneud i gyfleoedd bywyd hirdymor, a phwysigrwydd gallu dangos cyflawniad drwy gymwysterau cadarn ac ystyrlon.

Sut rydym yn effeithio ar lesiant Cymru

Wrth ystyried a oes angen amcanion ychwanegol arnom, rydym wedi edrych ar yr effaith gadarnhaol rydym eisoes yn ei chael ar lesiant Cymru, a beth arall y gallwn ei wneud.

Fel rheoleiddiwr:

Mae ein Strategaeth yn nodi ein dull rheoleiddio ac yn egluro'r wyth mater y mae'n rhaid i ni eu hystyried yn ein gwaith, y mae llawer ohonynt yn ategu'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy hirdymor. Mae hefyd yn disgrifio ein dull o weithio gyda rhanddeiliaid a gwneud penderfyniadau, sy'n gyson â'r 'ffyrdd o weithio' a nodir yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru.

Darn o Strategaeth Cymwysterau Cymru

Yn anad dim, rydym yn rheoleiddiwr a sefydlwyd gan ddeddfwriaeth. Mae ein prif ddiben i'w weld yn Rhan 2 o Ddeddf Cymwysterau Cymru (2015)[1], sy'n nodi ein prif amcanion ac, felly, ein cenhadaeth:

'sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.'

Wrth wneud hyn, byddwn:

- *Yn ystyried y canlynol[1]:*

    - *twf yn yr economi;*
    - *y Gymraeg;*
    - *ystod a natur cymwysterau a'u trefniadau asesu;*
    - *anghenion cyflogwyr, addysg uwch a'r proffesiynau;*
    - *p'un a yw cynnwys cymwysterau yn gyfoes*
    - *cysondeb â chymwysterau mewn mannau eraill;*
    - *effeithlonrwydd a gwerth am arian;*
    - *rolau a chyfrifoldebau'r rhai o fewn y system gymwysterau.*
- *Yn gweithio er budd dysgwyr yn yr hirdymor ac er lles y cyhoedd;*
- *Yn pennu blaenoriaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ac yn defnyddio ein hadnoddau cyfyngedig yn y ffordd fwyaf effeithiol;*
- *Yn gweithredu'n dryloyw;*
- *Yn cymryd camau gweithredu cymesur ac yn ymwybodol o ganlyniadau bwriadol – ac anfwriadol – ein camau gweithredu, penderfyniadau a chyngor i'r system gymwysterau ac addysg yng Nghymru;*
- *Yn sicrhau bod ein dulliau gweithredu yn gyson;*
- *Yn croesawu sylwadau gan bob rhanddeiliad;*
- *Yn ystyried yr effaith rydym yn ei chael ar hyder y cyhoedd;*
- *Yn benderfynol ac yn gweithredu pan fo angen.*

Mae ein rôl yn un ehangach na rôl rheoleiddiwr cymwysterau confensiynol. Er enghraifft, mae gennym bwerau i gomisiynu cymwysterau newydd a chyfyngu ar yr amrywiaeth o gymwysterau a gynigir, ac rydym yn cefnogi asesu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r system gymwysterau drwy roi grantiau. Gan fod gennym ddiddordeb ym mhotensial arloesedd i fodloni gofynion cymwysterau a'r system gymwysterau yn y dyfodol, rydym yn chwilio am gyfleoedd ein hunain, ac am gefnogi cyrff dyfarnu pan fyddant yn arloesi.

Mae'n bosibl mai ar ffyniant economaidd y cawn yr effaith fwyaf. Fel un rhan o system addysg Cymru, mae gan ein gwaith rôl glir o ran helpu dysgwyr i wneud cynnydd a datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth a thrwy hynny wella ffyniant a thwf economaidd yn gyffredinol.

Mae datganiad Andreas Schleicher, Cyfarwyddwr Addysg y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, yn 2016 mai "system addysg heddiw yw economi yfory" yn dangos pwysigrwydd addysg i ffyniant hirdymor.

Rydym yn rheoleiddio er mwyn diogelu ansawdd a chludadwyedd cymwysterau yng Nghymru. Mae gennym bwerau hefyd i lywio cynnwys cymwysterau: rydym yn pennu'r meini prawf y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu cymwysterau, ac mae gennym bwerau i

gomisiynu gwaith i ddatblygu cymwysterau. Yn y modd hwn, gallwn ystyried i ba raddau y mae cymwysterau yn diwallu anghenion cyflogwyr a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, a chymryd camau i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud lle bo angen.

Credwn ein bod yn cefnogi'r Ddeddf drwy gyflawni ein deilliannau rheoleiddio. Rydym wedi mapio'r rhain yn erbyn yr amcanion llesiant.

Fel cynghorydd a phartner yn system gymwysterau Cymru - rydym yn cydweithio â llawer o sefydliadau eraill, gan gynnwys partneriaid eraill yn y system addysg, y cyrff dyfarnu a reoleiddir gennym, a'r rheoleiddwyr cymwysterau mewn rhannau eraill o'r DU. Fel corff annibynnol, mae'r gwaith ymchwil a dadansoddi a wnawn a'r cyngor a roddwn yn hysbysu Gweinidogion, swyddogion a sefydliadau eraill sy'n datblygu neu'n pennu polisi addysg, yn darparu gwasanaethau addysg neu'n addysgu dysgwyr.

Fel sefydliad a chyflogwr - rydym yn effeithio'n uniongyrchol ar lesiant ein staff – drwy ein polisïau staff, ein diwylliant, a'r amgylchedd gwaith rydym yn ei ddarparu. Rydym yn cydnabod bod gennym rôl i'w chwarae yn ein cymuned leol. Rydym hefyd yn cydnabod y potensial sydd gennym i ddylanwadu ar gyflenwyr a derbynwyr grantiau drwy'r ffordd rydym yn neilltuo ein £4m o wariant blynyddol nad yw'n wariant ar gyflogau.

Wedi ystyried y rolau hyn, rydym wedi nodi pedwar amcan llesiant ychwanegol i sicrhau ein bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl, sef:

Cefnogi cyflogwyr – byddwn yn cysoni ein strategaethau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol ag anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol. Drwy adolygiadau o'r sector galwedigaethol, byddwn yn sicrhau bod cymwysterau yn helpu i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.
Cefnogi ein gweithlu – byddwn yn darparu amgylchedd gwaith ac yn cefnogi diwylliant sy'n hybu ffyrdd o fyw iach ymhlith staff a llesiant hirdymor.
Cynnwys cymwysterau – pan fyddwn yn comisiynu neu'n cyflwyno cymwysterau newydd, byddwn yn ystyried a fyddai'n fuddiol annog cyrff dyfarnu i ymgorffori gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy a dealltwriaeth ohono.
Cydweithio – byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, i gefnogi'r system gymwysterau a manteisio ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd.

Mapio ein deilliannau rheoleiddio a'n Hamcanion Llesiant

Mae Strategaeth Cymwysterau Cymru yn cynnwys ein deilliannau rheoleiddio a chaiff ei hategu gan strategaethau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol yn ogystal â gallu corfforaethol. Rydym wedi mapio ein deilliannau rheoleiddio a'n hamcanion llesiant yn erbyn y Nodau Llesiant a nodir isod.

Nod Llesiant	**Disgrifiad**
Cymru lewyrchus	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cymru gydnerth	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Cymru iachach	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymru o gymunedau cydlynol	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Deilliannau rheoleiddio

Bydd ein diben wedi'i gyflawni pan fydd **dysgwyr, cyflogwyr a darparwyr addysg yn ymddiried mewn cymwysterau rheoleiddiedig yr astudir ar eu cyfer yng Nghymru ac yn eu gwerthfawrogi, a phan fydd y cymwysterau hynny yn cael eu cydnabod ledled y DU ac yn rhyngwladol.**

Deilliannau Rheoleiddio (wedi'u mapio)	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau cydlynol	Diwylliant a'r Gymraeg	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Mae cymwysterau rheoleiddiedig y mae dysgwyr yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer yn ddilys, yn ddibynadwy a chânt eu dyfarnu i safon briodol.	x						
Mae cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru yn gynhwysol ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i ddysgwyr.				x	x		
Mae cymwysterau rheoleiddiedig a'r system gymwysterau yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol, yn enwedig o ran y budd hirdymor i Gymru a'i dysgwyr.	x	x	x	x	x	x	x
Mae rheoleiddio yn gymesur, yn dryloyw, yn gyson ac wedi'i dargedu i gefnogi system gymwysterau sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor.	x						
Mae trefn lywodraethu briodol ar waith i sicrhau atebolrwydd a chydymffurfiaeth reoleiddiol.							
Mae'r wybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol i sicrhau cymwysterau rheoleiddiedig cyson o ansawdd sicr ar gael ac yn hygyrch.							

Mae'r map hwn yn dangos ein bod o'r farn ein bod yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf drwy ein hamcanion i gefnogi 'Cymru lewyrchus', ond cawn yr effaith ehangaf drwy ein gwaith i sicrhau bod cymwysterau a'r system gymwysterau yn ymateb i anghenion cyfnewidiol.

Amcanion Llesiant Corfforaethol – Mae gennym bedwar amcan llesiant ychwanegol rydym wedi'u mapio hefyd. Caiff y rhain eu cyflawni drwy ein strategaethau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol a'n Strategaeth Gallu Corfforaethol http://qualificationswales.org/cymraeg/amdanom-ni/strategaethau-a-chynlluniau/strategaeth-cymwysterau-cymru/

Amcanion Llesiant Corfforaethol (wedi'u mapio)	Llewyrchus	Cydnerth	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau cydlynol	Diwylliant a'r Gymraeg	Cyfrifol ar lefel fyd-eang
Cefnogi Cyflogwyr – byddwn yn cysoni ein strategaethau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol ag anghenion sgiliau Cymru yn y dyfodol. Drwy adolygiadau o'r sector galwedigaethol, byddwn yn sicrhau bod cymwysterau yn helpu i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyflogwyr yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol.	x						
Cefnogi ein Gweithlu – byddwn yn darparu amgylchedd gwaith ac yn cefnogi diwylliant sy'n hybu ffyrdd o fyw iach ymhlith staff a llesiant hirdymor.	x		x				
Cynnwys Cymwysterau – lle bo hynny'n briodol, byddwn yn defnyddio ein pwerau i annog cyrff dyfarnu i gynnwys gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy a dealltwriaeth ohono yn eu cymwysterau.		x	x	x	x	x	x
Cydweithio – rydym yn gweithio gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus i gefnogi'r system gymwysterau a manteisio ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd.	x						

Mae'r map hwn yn dangos ein bod o'r farn ein bod yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf drwy ein hamcanion i gefnogi 'Cymru lewyrchus', ond cawn yr effaith ehangaf drwy ein gwaith i annog cynnwys priodol ar gyfer cymwysterau.